Stori Betws-Coed.

Mae'r teulu Morgan ym Metws-y-Coed ar wyliau am newid. Dydyn nhw ddim isio mynd i Sir Benfro eleni, achos maen nhw isio achub y blaned. Syniad Llinos wrth gwrs. Syniad da 'nde! Maen nhw'n aros yma am wythnos mewn pabell. Maen nhw newydd gyrraedd.

Ieuan: Does 'na ddim lle i barcio yma. Mae 'na ormod o bobl. Mae'n rhy brysur!

Mair: Paid â dechrau Ieuan. Dan ni'n gallu parcio am ddim yma.

Llinos: Lle mae'r tŷ bach mam? Dw i wir angen y tŷ bach.

Mair: Wna i fynd â Llinos i'r tŷ bach. Dadbacia'r car efo Gerallt a Lowri.

Mae Gerallt yn gwrando ar ei i pod. Dydy o ddim yn clywed. Mae Ieuan yn gweiddi.

Ieuan: Gerallt!

Gerallt: Be?

Ieuan: Ty'd o 'ne. Mae 'na ddigon i wneud.

Gerallt: Oes rhaid i mi? Wna i fynd â Carlo am dro.

Ieuan: Iawn. Ty'd yma Lowri. Wnawn ni roi'r babell i fyny.

Lowri: Dw i'm isio difetha fy esgidiau newydd.

Ieuan: Paid â chwyno. Gwisga dy "wellies" 'te.

Lowri: Pa "wellies"?

Ieuan: Wel – y rhai efo blodau wnest ti brynu yn Siop Steil wythnos diwetha, neu y rhai wnest ti brynu ar E bay ddoe – neu y pâr pinc, neu y pâr glas, neu y pâr melyn….

Lowri: Peidiwch â siarad fel 'na, Dad.

Mae Mair a Llinos yn dod yn ôl.

Lowri: Mam, dudwch wrtho fo wnewch chi?

Mair: Dewch o ‘ne ‘te bawb. Dan ni yma i gael hwyl. Lowri gwna baned. Wna i helpu Dad efo’r babell. Ieuan – ti’n gw’bod siop Anna Davis, wel mae ‘na sêl yna heddiw. Popeth yn hanner pris!

Ieuan: O na! Nefoedd wen! Dim sêl arall.

Lowri: Reit amser paned.

Mair: Diolch cariad. Ti’n garedig iawn.

Ieuan: Diolch blodyn.

Geralllt a Llinos: Diolch, - ti’n neis iawn.

Pawb: Ych a fi! Lowri, ti ‘di rhoi halen yn y te!

Be sy’n digwydd nesa tybed?